# COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR SIR A GYNHALIWYD DRWY TEAMS DDYDD GWENER, 30 EBRILL 2021

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir R G Thomas (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, M Barnes, J Berriman, G Breeze, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, A W Davies, B Davies, D E Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, D O Evans, J Evans, L Fitzpatrick, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes, H Hulme, E A Jones, D R Jones, E Jones, G Jones, J R Jones, E M Jones, M J Jones, D Jones-Poston, F H Jump, K Laurie-Parry, H Lewis, I McIntosh, S McNicholas, JG Morris, R Powell, WD Powell, D R Price, P C Pritchard, G Pugh, G W Ratcliffe, L Rijnenberg, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, E Roderick, D Rowlands, K S Silk, D Selby, L Skilton, D A Thomas, T J Van-Rees, J Wilkinson, A Williams, D H Williams, J Williams, J M Williams a S L Williams

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Sir B Baynham, E Durrant, A Jenner, K Lewis, P E Lewis, MC Mackenzie, DW Meredith, E Vaughan and R Williams

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 3. CYFANSODDIAD

Ystyriodd y Cyngor argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sy’n argymell nifer o newidiadau i'r Cyfansoddiad.

**Teitl Pwyllgor Craffu yr Economi, Preswylwyr, Cymunedau a Llywodraethu**
Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Sir Aled Davies ac fe’u heiliwyd gan y Cynghorydd Sir Lucy Roberts ac o 53 pleidlais i 0

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **1. Y dylid newid teitl Pwyllgor Craffu yr Economi, Preswylwyr, Cymunedau a Llywodraethu i fod yn Bwyllgor Craffu yr Economi, Preswylwyr a Chymunedau o 1 Mai 2021 ymlaen;**<br>**2. Bod y Swyddog Monitro yn cael ei awdurdodi i wneud unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad ag sy'n ofynnol i adlewyrchu'r newid a nodir yn Argymhelliad 1 uchod.** | **Adlewyrchu ailenwi'r Pwyllgor Archwilio fel y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a thrwy hynny osgoi dryswch.** |

**Aelodaeth y Pwyllgorau Craffu**

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Sir Lucy Roberts ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Michael Williams ac o 53 pleidlais i 0

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| 3. Bod Rheol 7.4 o'r Cyfansoddiad (fel y'i nodir mewn Adran 7 ddiwygiedig ddrafft o'r Cyfansoddiad sydd ynghlwm) yn cael ei diwygio o 12 Mai 2021 ymlaen fel bod:<br><br>• aelodaeth Pwyllgor Craffu'r Economi, Preswylwyr, Cymuned a Llywodraethu (Pwyllgor Craffu'r Economi, Preswylwyr a Chymunedau) yn uchafswm o 14 Cynghorydd - Cytbwys yn Wleidyddol - ynghyd ag 1 Aelod a Gyfetholir Di-bleidlais ar gyfer trosedd ac anhrefn;<br><br>• aelodaeth y Pwyllgor Craffu Dysgu a Sgiliau yn uchafswm o 14 Cynghorydd - Cytbwys yn Wleidyddol - a<br>3 chynrychiolydd sy'n rhiant-lywodraethwyr;<br>1 cynrychiolydd Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru;<br>1 cynrychiolydd Esgobaeth yr Eglwys Babyddol. | Caniatáu i fwy o Gynghorwyr gymryd rhan mewn cyfarfodydd Craffu. |

**Diwygiadau i Ddarparu Hysbysiadau, Gwysiau, Agendâu, Penderfyniadau a Chadw Dogfennau**

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi gofyn am roi ystyriaeth i hyrwyddo cyfarfodydd trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Sir Linda Corfield a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Jonathan Wilkinson ac o 52 pleidlais i 0

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| 4. Bod y diwygiadau i Reolau 4.23.1 i 4.23.6, 14.9; 14.12 i 14.1 a 14.30.7 (fel y nodir yn Adrannau 4 a 14 diwygiedig drafft o'r Cyfansoddiad sydd ynghlwm wrth yr adroddiad) yn cael eu cymeradwyo ac i ddod i rym o 1 Mai 2021 ymlaen.<br>5. Bod y Swyddog Monitro wedi'i | Adlewyrchu Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |

| | |
|---|---|
| **awdurdodi i wneud unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad ag sy'n ofynnol i adlewyrchu'r newidiadau a nodir yn Argymhelliad 4 uchod.** | |

**Presenoldeb o Bell**
Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Sir Pete Roberts a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Edwin Roderick ac o 55 pleidlais i 0

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **6. Bod y diwygiadau i Reolau 4.27.1 i 4.27.2 fel y nodir yn Adran 4 y Cyfansoddiad sydd ynghlwm wrth yr adroddiad, yn cael eu cymeradwyo ac i ddod i rym o 1 Mai 2021.**<br>**7. Bod y Swyddog Monitro wedi'i awdurdodi i wneud unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad ag sy'n ofynnol i adlewyrchu'r newidiadau a nodir yn Argymhelliad 6 uchod.** | **Adlewyrchu'r newidiadau sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** |

**Swyddogaethau Ychwanegol ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Sir Phil Pritchard a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Linda Corfield ac o 55 pleidlais i 0

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **8. Bod paragraffau (a) - (d), (da), (db) ac (e) - (f) yn cael eu mewnosod ar dudalennau 34 a 35 o Adran 13 y Cyfansoddiad fel y'u nodir yn Adran 13 y Cyfansoddiad (ynghlwm) i'r adroddiad ac yn Adran 7 y Cyfansoddiad (ynghlwm) o 1 Mai 2021 ymlaen.** | **Adlewyrchu'r newidiadau sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Mesur Llywodraeth Leol 2011.** |

**Y Cynghorydd Sir R G Thomas (Cadeirydd)**